**Cyngor Tref TREGARON Town Council**
Clerc/*Clerk*: Fflur Lawlor
E-bost/*E-mail*: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

**<u>Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron / *Tregaron Town Council Meeting*</u>**
**<u>Nos Sul / Sunday 11.02.2024</u>**

<u>6.00yh/pm – yn Clwb Bowlio Tregaron *Bowling Club*</u>

**<u>COFNODION / *MINUTES*</u>**

| | Eitem / *Item* | Gweithred / *Action* |
|---|---|---|
| 1. | **CROESO / WELCOME**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod ac eglurodd y rheswm dros orfod galw y cyfarfod hwn.<br><br>*The Chair welcomed everyone to the meeting and explained the reason for having to call this meeting.*<br><br>PRESENNOL / *PRESENT*: Cyng/*Cllr* Arwel Jones (Cadeirydd / *Chair*) Catherine Hughes, Dafydd Richards, Dewi Evans (ar lein), Rhydian Wilson, Gwion James, Rhian Jones, Sian Jones (ar lein), Rhian Hughes & Meirian Morgan<br><br>Clerc / *Clerk* – Fflur Lawlor<br><br>Cyng/*Cllr* Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion *County Council Local Member* | |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**<br>Cyng/*Cllr*. Owain Pugh | |
| 3. | **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**<br>Cyng Rhydian Wilson yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniadau o ran y Cyngor Tref yn cymryd drosodd y toiledau.<br><br>*Cllr Rhydian Wilson declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Town Council taking over the toilets.* | |
| 4. | **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**<br>a) Gwasanaethau ychwanegol / *Additional Services*<br><br><u>Cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion</u><br><br>Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion yng Nghanolfan Rheidol ar Ionawr 30ain. Nodwyd y Cyngor Sir mewn cyfnod heriol iawn yn ariannol. Prif bwrpas y cyfarfod oedd i drafod y gyllideb â'r pwysau ac heriau cyllidebol sydd o'm | |

blaenau. Dywedwyd bod e'n bwysig dod â'r Cynghorau Tref a Chymuned gyda nhw ar y siwrne anodd.

Dywedodd Eifion Evans, Prif Weithredwr bod Cyngor Sir Ceredigion bod yr her sydd o'n blaenau'n frawychus. Mae Swyddogion wedi bod yn gweithio ar y gyllideb ar gyfer 2024/2025 ers yr haf pan ddaeth yn amlwg ein bod yn gwynebu arbedion sylweddol. Fe gyflwynwyd adroddiad cychwynnol i'r Cabinet canol Ionawr ac roedd hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa y pryd hynny – mae pethau'n newid yn ddyddiol ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hynny yn cynnig codiad yn Nhreth y Cyngor o 13.9% ond maent yn gweithio'n galed i gostwng hynny cyn bod y Cyngor yn gwneud penderfyniad ar 29 Chwefror 2024 ar gyllideb 2024/2025.

Nodwyd fod y sefyllfa i'r blynyddoedd sydd i ddod yn argoeli i fod yn waeth ac rydym eisoes yn meddwl ymlaen at yr heriau hynny.

Fe nodwyd yn ogystal bod y fformiwla sydd yn ein ariannu gan Llywodraeth Cymru (LlC) yn gweithio'n erbyn Awdurdodau gwledig fel Ceredigion. Maent yn gweithio'n galed i lobïo bod y fformiwla yma'n newid ac ei fod yn tecach i bob Awdurdod yng Nghymru. Maent wedi trafod gydag Archwilio Cymru yn gofyn iddynt edrych ar tegwch y fformiwla. Hefyd, maent wedi herio'r Gweinidog Gyllid yn uniongyrchol a thrwy ein Aelod Senedd lleol, Elin Jones.

Nodwyd ei fod hi'n anodd i reoli'r gyllideb pan mae 'na annhegwch yn y system a'r gwirionedd yw fod trigolion Ceredigion yn colli allan.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Duncan Hall, Pennaeth Cyllid ar cyllideb Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2024/2025.

Yn unol â hyn, mae'r Cyngor Sir wedi gofyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned edrych ar y posibilrwydd o gymryd drosodd rhai gwasanaethau ychwanegol yn lleol.

*Meeting between Ceredigion County Council and the Town and Community Councils in Ceredigion*

*The Chair and the Clerk attend the meeting between Ceredigion County Council and the Town and Community Councils in Ceredigion at Canolfan Rheidol on January 30th. It was noted that the County Council are in a very difficult period financially. The main purpose of the meeting was to discuss the budget with the budgetary pressures and challenges ahead. It was said that it was important to bring Town and Community Councils with them on the difficult journey.*

*Eifion Evans, Chief Executive said Ceredigion County Council stated that the challenge ahead is daunting. Officers have been working on the budget for 2024/2025 since the summer when it became clear that they were winding up significant savings. An initial report was submitted to Cabinet mid January and this reflected the situation at that time – things are changing daily. That report proposed a rise in Council Tax of 13.9% but they are working hard to reduce that before the Council makes a decision on 29 February 2024 on the 2024/2025 budget.*

*It has been noted that the situation for the coming years promises to be worse and they are already thinking ahead of those challenges.*

*It was also noted that the formula funded by the Welsh Government (WG) works against rural Authorities such as Ceredigion. They are working hard to lobby that this formula changes and is fairer for all Authorities in Wales. They have discussed with Audit Wales asking them to look at the fairness of the formula. They have also challenged the Finance Minister directly and through our local Senedd Member, Elin Jones.*

*It was also noted that it is difficult to manage the budget when there are inequities in the system and the reality is that Ceredigion residents are missing out.*

*Duncan Hall, Head of Finance presented a presentation on Ceredigion County Councils' budget for 2024/2025.*

*In line with this, the County Council have asked Town and Community Council to look at the possibility of taken over some additional services locally.*

Yn Nhregaron dyma nhw:- / *In Tregaron these are:-*

i. Toiledau / *Toilets*
ii. Torri Porfa / *Grass Cutting* –
    i. Maes Parcio / *Car Park*
    ii. Stad Diwydiannol / *Industrial Park*
    iii. Canolfan Hamdden / *Leisure Centre*
    iv. Brynheulog
    v. Maesyrawel
    vi. Capel Wesley / *Wesleyan Chapel*

Rhagamcan Ariannol / *Financial Projection* 2024/25

Cyflwynodd y Clerc y gyllideb a'r rhagamcan ariannol ar gyfer 2024/25. Mae symudiad posib yn y gyllideb oherwydd torri nôl mewn rhai meysydd a bydd hynny'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn ystod y misoedd nesaf. Anfonwyd cyllideb ddrafft 2024/25 ymlaen at yr holl aelodau cyn y cyfarfod.

*The Clerk presented the budget and financial projection for 2024/25. There is possible movement in the budget due to cutting back in some areas that will be discussed at a meeting in the coming months. The draft budget 2024/25 was forwarded to all members prior the meeting.*

i. Toiledau / *Toilets* –

Cafwyd trafodaeth hir ynglŷn â meddiannu'r toiledau – manteision, anfanteision, goblygiadau ariannol a'r effaith y byddai'n ei gael ar drigolion ac ymwelwyr â'r dref.

Cynigiwyd cytuno i gymryd y toiledau mewn egwyddor gyda'r amodau a ganlyn –

- ni fydd y cyngor tref yn cyflogi staff toiledau presennol CSC.
- bydd yn rhaid i waith cynnal a chadw a chynnwys yr adeilad fod o safon da.
- eglurhad ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am yr yswiriant.

| | | |
|---|---|---|
| | • i gael y les ar gyfer sied newydd yn y mart, yr ardd gymunedol a chae'r parc.<br><br>*A long discussion was held around taking over the toilets - advantages, disadvantages, financial implications, and effect it would have on both residents and visitors to the town.*<br><br>*It was proposed to agree in principle to take on the toilets with the following conditions –*<br>• *the town council will not take on CCC current toilet staff.*<br>• *maintenance of building and contents will have to be of good standard.*<br>• *clarification on who would be responsible for the insurance.*<br>• *to get the lease for a new shed in the mart, the community garden and the park field.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Sian Jones<br><br>ii. Torri Porfa / *Grass Cutting* –<br>i. Maes Parcio / *Car Park*<br>ii. Stad Diwydiannol / *Industrial Park*<br>iii. Canolfan Hamdden / *Leisure Centre*<br>iv. Brynheulog<br>v. Maesyrawel<br>vi. Capel Wesley / *Wesleyan Chapel*<br><br>Trafodwyd torri gwair a chytunodd y mwyafrif i'w gymryd ymlaen fel Cyngor Tref.<br><br>*The grass cutting was discussed, and the majority agreed to take it on as a Town Council.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Gwion James<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Dafydd Richards | |
| 5. | **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**<br>5.1 –<br><u>Praesept / *Precept* 2024-25</u> –<br>Yn cyfarfod mis Rhagfyr 2023 penderfynwyd gosod praesept 2024/2025 yn £23,100 (cynnydd o 5%) gyda unrhyw ddifyg yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ein hysbysu bod amser o hyd i ailystyried y praesept. Maent wedi ymestyn y dyddiad cau i 14 Chwefror i anfon y swm praesept terfynol oherwydd y posibilrwydd o orfod cymryd gwasanaethau ychwanegol.<br><br>Gyda hyn mewn golwg, penderfynwyd gosod praesept 2024/2025 ar £25,000 (cynnydd o 12%) ac unrhyw ddiffyg yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.<br><br>*At the December 2023 meeting, it was decided to set the 2024/2025 precept at £23,100 (5% increase) and any deficit being funded from reserves.* | Clerc / *Clerk* |

| | | |
|---|---|---|
| | *The County Council has informed us there is still time to reconsider the precept. They have extended the deadline to the 14th February to send the final precept sum due to the possibility of having to take on additional services.*<br><br>*With this in mind, it was decided to set the 2024/2025 precept at £25,000 (12% increase) and any deficit being funded from reserves.*<br><br>Cynnig/*Proposed*: Cyng/*Cllr* Catherine Hughes<br>Eilio/*Seconder*: Cyng/*Cllr* Rhian Hughes | |
| 6. | **CYFARFOD GYDA'R CYNGOR SIR / MEETING WITH THE COUNTY COUNCIL – 12.02.2024**<br>Mae cynrychiolwyr o'r cyngor tref wedi'u gwahodd i gyfarfod gyda'r Cyngor Sir a gynhelir dros Timau am 4pm ddydd Llun 12fed Chwefror. Penderfynwyd cyfarfod yn y Neuadd Goffa a defnyddio eu cyfleuster fideo-gynadledda i gyfarfod.<br><br>*Representatives from the town council have been invited to a meeting with the County Council which will be held over Teams at 4pm on Monday 12th February. It was decided to meet at the Memorial Hall and use their video conference facility to meet.* | |

CADEIRYDD / CHAIRMAN